**Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7 o'r gloch Nos Fawrth, 17eg Ebrill 2018.**

**Presennol:** Cyng. Dyfed Williams (Cadeirydd)
Cyng. Gwilym O. Jones
Cyng. Gordon Owen
Cyng. William Victor Owen
Cyng. Sharon Wyn Parry
Cyng. Beryl Salisbury
Cyng. Einir Thomas

**Gwr Gwadd Mr Trystan Evans (Adran Dai, Cyngor Sir Ynys Môn)**

Dywedodd bod CSYM wedi sicrhau cyllid i adeiladu tai cymdeithasol ar yr Ynys. Roedd ganddynt 300 o ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai a disgwylir y niferoedd gynyddu ac i renti tai preifat godi'n sylweddol pan fydd gwaith yn ddechrau ar Wylfa Newydd.

Roedd y darn tir sy'n eiddo CSYM ar gwr Stad Tre Ifan wedi'i nodi fel safle posibl ar gyfer adeiladu pump neu chwech o dai dwy ystafell wely.

Roedd yr Arolwg Anghenion Tai Lleol diwethaf yn dangos fod angen am dai cymdeithasol yng Nghaergeiliog a nodwyd fod 12 o geisiadau gyda blaenoriaeth ar Gofrestr Tai'r Cyngor Sir yn barod.

Fel rheol, cynigir tenantiaeth i'r ymgeisydd sydd â'r flaenoriaeth band uchaf ac sydd wedi bod yn aros yr hiraf. Dyfernir i bob ymgeisydd sy'n mynd ar y rhestr aros un o bedwar 'band' hynny yw 'brys' a band 1, 2 neu 3. Rhoddir blaenoriaeth pob amser i'r rhai sydd gyda chysylltiad lleol.

Pe byddai'r cynnig yn cael ei dderbyn, gallai'r adeiladu ddechrau yn y 9 i 12 mis nesaf a byddai'r tai yn barod i'w gosod mewn tua 18 mis.

Nodwyd nad oedd gan y Cyngor Cymuned wrthwynebiad i fwy o dai gael eu hadeiladu ond pwysleisiwyd hefyd y byddai rhaid ymgynghori ymhellach gyda thrigolion lleol.

1. **Ymddiheuriadau** – dim

2. **Datganiad o ddiddordeb** – dim
   Byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau ynglŷn â gofyn am ganiatâd arbennig pe bai cais am gynllunio yn cael ei wneud ar Stad Tre Ifan.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd…………………………

**3. Cofnodion cyfarfod o 20fed o Fawrth 2018:**

Derbyniwyd fod y cofnodion yn gywir - (Cynnig Cyng. Victor Owen, eilio Cyng. Sharon Parry.)

**4. Materion yn codi o'r cofnodion:**

1. Maes Chwarae: Cytunwyd i ofyn i McVenture Playgrounds Ltd. lenwi'r twll yn y glaswellt wrth waelod y sleid, nodwyd hefyd fod y rhaff dringo a'r postion gôl wedi cael eu tynnu i lawr.

2. Llochesi Bws – Roedd y gwaith ar y lloches bws ar Ffordd Minffordd yn cael sylw.

3. Gwaith cynnal Tre Ifan - Gofynnwyd i Mr Trefor Jones roi sylw i gopa'r wal gyfan pan oedd o'n gwneud y gwaith cerrig ar y waliau.

   Byddai'r clerc yn trefnu i'r meinciau gael eu paentio.

4. Ffordd Minffordd – roedd rhai o'r tyllau yn y lon wrth Minffordd wedi eu llenwi gan gontractwyr ond roedd gweddill y ffordd yn parhau i fod mewn cyflwr gwael.

5. Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - nodwyd fod angen atgoffa CSYM fod angen trin wyneb Lon Cymyran.

**5. Deddf Gynllunio Gwlad a Thref:**

<u>Penderfyniadau Cynllunio - dim</u>

<u>Ceisiadau Cynllunio</u>

32C205A Gwaelod Bach, Caergeiliog – Cais llawn ar gyfer dymchwel yr annedd presennol ac adeliadu annedd newydd yn ei le yngyd a mynediad newydd – dim gwrthwynebiad

**6. Gohebiaeth Cyngor Sir Ynys Môn: - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

1. Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith – nodwyd.
2. Pwyllgor Safonau / Penderfyniadau Panel Dyfarnu Cymru a Cwynion Còd Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
3. Gwahardd Traffig Lôn Cymyran

**7. Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2017 i 31.03.2018 ynghyd â Chysoniad Banc a Datganiadau Banc.

Llofnod……………………………………………Cadeirydd………………………….

**Yn y banc ar 17.4. 2018 Cyfrif Cyfredol £9728.11 Cyfrif Cadw £3,923.35**

**Taliadau i'w gwneud**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyflog (Mawrth) | £224.15 | GMS INV3317 | £45.60 |
| Vision ICT (Wefan) | £150 | Gwaith Cynnal | £70.00 |

**Cytunwyd i dalu'r rhain (Cynnig Cyng. Beryl Salisbury Cyng. Gordon Owen.)**

**8**. **Cyfrifon Terfynol 2017/18** - dosbarthwyd y cyfrifon i'r Aelodau a byddai'r clerc yn gwneud trefniadau i'w archwilio. Nodwyd hefyd fod dogfennau'r archwilydd allanol newydd gyrraedd, byddai'r clerc yn adrodd arnynt yn y cyfarfod nesaf.

**9.** **Llwybrau Cyhoeddus** - cytunwyd y byddai'r clerc yn dweud wrth GMS Ltd . am beidio â thorri'r llwybrau troed hyd nes bydd amserlen cynnal a chadw newydd wedi ei chytuno. Nodwyd bod yna broblem lle mae llwybr troed 28 yn cyrraedd llwybr 17 gan Glangors.

**10.** **Gohebiaeth Eraill: fe nodwyd y canlynol**

1. Pwyllgor Ardal Un Llais - Pencampwyr Iaith / Un Llais
2. Papur Gwyrdd 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl'
3. Un Llais Cymru - Bwletin Newyddion Mawrth 2018
4. Ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y Cyngor Cymuned a Thref
5. Pwysigrwydd Archwiliad Allanol - Neges gan Deryck Evans Swyddfa Archwilio Cymru
6. Adroddiad (Saesneg yn unig) gan Age Cymru - 'Showcasing tackling loneliness'

**11.** **Unrhyw fater arall**
Hysbysodd Cyng. William Victor Owen fod y ffordd o Lanfihangel yn Nhowyn heibio Cae'r Elen ac Alltwen Ddu i Fryngwran mewn cyflwr gwael.

Byddai'r clerc yn rhoi gwybod i CSYM.

**12.** **Cyfarfod nesaf 15fed o Fai 2018.**

Llofnod…………………………………………Cadeirydd…………………………